Ar 21 Mehefin, gwnaethom ni, sef Cadeiryddion, Cynullwyr a chynrychiolwyr y Pwyllgorau sy'n craffu ar faterion sy'n ymwneud â Brexit yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, gyfarfod yn Nhŷ'r Cyffredin ar gyfer pedwerydd cyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit, i drafod trefniadau'r dyfodol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin y DU. Roedd swyddogion o Gynulliad Gogledd Iwerddon yn bresennol fel sylwedyddion.

Rydym yn cydnabod nad yw'r system bresennol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol yn addas at y diben a bod angen ei diwygio ar frys. Heddiw, trafodwyd yr angen am ddulliau rhynglywodraethol ar gyfer fframweithiau cyffredin y DU a phwysigrwydd trefniadau craffu effeithiol ar y prosesau hyn ac ystyried yn fanwl y pryderon am gysylltiadau rhynglywodraethol presennol a nodwyd gan ystod o'n Pwyllgorau priodol. Hefyd, clywsom gan Sefydliad y Llywodraeth, a amlinellodd ei gynigion ar gyfer sefydlu fframweithiau cyffredin y DU.

Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei chynigion eto ar gyfer diwygio dulliau rhynglywodraethol na sut y bydd fframweithiau cyffredin y DU yn gweithredu.

Rydym yn annog y Llywodraeth i gyhoeddi'r cynigion hyn cyn gynted â phosibl i roi amser i'w hystyried ac i ymgynghori arnynt.

Yn sgîl y pryder y mae rhai o'n Pwyllgorau eisoes wedi'i fynegi, dylai Llywodraethau a Seneddau'r DU ystyried yr angen brys am y canlynol:

- Dylid ailstrwythuro Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn sylweddol ar unwaith.
- Dylai Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.
- Dylid nodi dulliau cysylltiadau rhynglywodraethol mewn statud.
- Dylai Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar ei newydd wedd fod yn fforwm ar gyfer trafod a gwneud penderfyniadau ar fframweithiau cyffredin.
- Dylid nodi'n glir y strwythurau penderfynu ar gyfer Cyd-bwyllgor y Gweinidogion. Mae strwythurau posibl ar gyfer prosesau penderfynu ffurfiol yn cynnwys pleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig neu wneud penderfyniadau ar y cyd neu gyfuniad o'r ddau.

- Dylid sefydlu trefniadau clir ar gyfer craffu seneddol ar ddulliau cysylltiadau rhynglywodraethol, a dylid annog gwaith rhyngseneddol.
- Dylai'r cytundeb rhwng Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban i ddosbarthu agendâu o gyfarfodydd rhynglywodraethol i'r pwyllgorau seneddol perthnasol mewn pryd i bwyllgorau drafod y prif faterion cyn y cyfarfod gael eu hymestyn i bob Senedd a chynulliad.
- Dylai Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar ei newydd wedd gael ysgrifenyddiaeth barhaol sy'n cydgysylltu â llywodraethau gwahanol y DU.

Bydd y fforwm yn cyfarfod eto ym mis Medi...

Yr Arglwydd McFall o Alcluith

Yr Arglwydd Jay o Ewelme

Yr Arglwydd Beith

Yr Arglwydd Kirkwood o Kirkhope

Syr Bernard Jenkin AS

Tonia Antoniazzi AS

Graham Simpson ASA

Mick Antoniw AC

David Rees AC